# CWIS Y SAMARIAID

## 20 munud

**Creu amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol trwy gytuno ar reolau sylfaenol i'r wers.**

**Yn y wers hon byddwn yn dysgu:**

- pam y byddai rhywun o bosibl yn dewis cysylltu â'r Samariaid
- sut i gael gafael ar gymorth os oes angen.

## Adnoddau

- Sleidiau neu daflenni cwis y Samariaid.

## Gweithgaredd

Cwis am y Samariaid: gofynnwch gwestiynau a gofynnwch i'r myfyrwyr ateb mewn parau.

**Rhannwch yr atebion a thrafodwch:**

1. Ydi'r myfyrwyr yn gwybod pwy yw'r Samariaid a beth maen nhw'n ei wneud?
2. Pa fath o broblemau mae pobl yn cysylltu â'r Samariaid â nhw?
3. Pam ydych chi'n meddwl y mae'r Samariaid yn cynnig y gwasanaeth hwn i bawb?
4. Pam fyddai rhywun yn dewis ffonio'r Samariaid yn hytrach na siarad ag athro/athrawes?
5. Sut ydych chi'n meddwl y byddai cysylltu â'r Samariaid yn helpu?

Gwnewch yn siŵr bod y myfyrwyr yn deall bod yna amrywiaeth o wasanaethau, a bod y Samariaid yn un o'r rhain, gan gynnig lle i siarad i unrhyw un. Defnyddiwch y daflen wybodaeth i gael mwy o wybodaeth.

## Myfyrio

Pe bai angen cymorth arnaf, y cam cyntaf i mi ei gymryd fyddai...

**Gwnewch yn siŵr bod y bobl ifanc yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael gafael ar y gefnogaeth hon.**